



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthuso Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig Adroddiad Terfynol: Crynodeb Gweithredol

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 09/2016

Defnyddir y term Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig (ASA) i gwmpasu amrywiaeth eang o gyflyrau a ddiffinnir fel anhwylderau datblygu treiddiol. Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig (y Cynllun Gweithredu Strategol ASA), strategaeth i bob oedran wedi'i bwriadu i wella dealltwriaeth a darpariaeth gwasanaethau i unigolion ag ASA yng Nghymru (LICC, 2008).

## *Gwerthuso'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA*

Ar ddiwedd 2012 comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Uned Pobl a Gwaith i gynnal gwerthusiad allanol o'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA. Mae'r gwerthusiad hwn yn cynnwys dau brif amcan:

- cynnal asesiad cynhwysfawr o argaeledd data a'r bylchau i lywio datblygu dangosyddion i fesur cynnydd;
- cynnal asesiad o sut y mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA yn cyflawni ei nodau gwreiddiol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r fethodoleg gwerthuso, y cynnydd a wnaed yn erbyn meysydd allweddol y Cynllun Gweithredu Strategol ASA a chasgliadau'r gwerthusiad mewn perthynas â chanlyniadau ym mhob un o'r meysydd hyn.

## **Dull a methodoleg**

Mae hwn yn werthusiad seiliedig ar theori. Mae wedi'i strwythuro o amgylch datblygu cyfres o fodelau rhesymegol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol ASA, disgrifiad o elfennau gwahanol y strategaeth yn amlinellu'r gweithredu a fwriedir ar gyfer y strategaeth

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

(mewnbynnau, gweithgarwch ac allbynnau) a'i heffaith ddisgwyliedig (gan gynnwys canlyniadau tymor byr a thymor hwy). Cafodd y modelau rhesymeg eu profi a'u mireinio drwy ddefnyddio data o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- adolygiad o'r ddesg o lenyddiaeth a data;
- cyfweiliadau a thrafodaethau â phobl ag ASA, rhieni a gofalwyr pobl ag ASA ac amrywiaeth o randdeiliaid allweddol o sectorau cyhoeddus, academiaidd a gwirfoddol;
- cyfweiliadau a thrafodaethau gydag arweinyddwyr/cydlynwyr ASA, ac arolwg ohonynt.

### **Canfyddiadau allweddol**

Mae Cymru wedi arwain y ffordd yn y DU o ran datblygu polisiâu i gynorthwyo pobl ag ASA, a'u teuluoedd. Ers lansio'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA yn 2008 mae seilwaith ASA cenedlaethol a lleol wedi'i ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys cydlynnydd cenedlaethol, arweinyddwyr ASA a grwpiau cydlynu ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol (ALI) yng Nghymru a rhwydwaith cwnsela cyn/ôl ddiagnosis i oedolion Cymru gyfan. Mae'r strategaeth a'r seilwaith wedi helpu i godi proffil polisi'r ASA, grymuso unigolion i ddatblygu a

gwella gwasanaethau a rhoi canolbwynt ar gyfer datblygiadau ledled Cymru.

Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn ganolbwynt allweddol y seilwaith ASA cenedlaethol a lleol. Llwyddwyd i gyrraedd amrywiaeth eang a nifer mawr o wasanaethau a phobl a nodir bod yr hyfforddiant ac ymwybyddiaeth well wedi cael canlyniadau cadarnhaol. Serch hynny, mae'r cwmpas wedi bod yn anwastad ar draws gwasanaethau a grwpiau ac mae angen mwy o waith.

Mae mwy o ymwybyddiaeth o ASA wedi cyfrannu at gyfraddau uwch o ran ei nodi. Mae hyn yn ei dro wedi cyfrannu at gynnydd pendant o ran diagnosis ymhlith disgyblion oedran ysgol yng Nghymru o tua 0.2 y cant yn 2003/2004 i 1 y cant erbyn 2012/13 (Holtom et al., ar y gweill). Mae hyn yn cynrychioli canlyniad allweddol. Mae wedi gwella'r cymorth y gall plant a phobl ifanc gael mynediad iddo mewn addysg, cynyddu'r tebygolrwydd y bydd anghenion oedolion ifanc yn cael eu cydnabod, ac mae'n cael ei werthfawrogi gan rieni a gofalwyr. Fodd bynnag, mae mwy o ymwybyddiaeth hefyd wedi cynyddu'r pwysau ar wasanaethau diagnostig plant, gan gyfrannu at amseroedd amser hir mewn sawl rhan o Gymru.

Mae gwelliannau mewn asesu ASA a diagnosis ohono i oedolion hefyd yn ganlyniadau allweddol. Mae gwasanaethau newydd wedi'u sefydlu mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys cwnsela cyn ac ar ôl diagnosis, a gwasanaethau presennol wedi'u cyfuno mewn eraill, gan gynyddu gallu ac adnoddau a gwella ansawdd y broses ddiagnostig. Fodd bynnag, mae nifer yr oedolion sy'n cael diagnosis yn parhau'n fach a cheir bylchau a gwendidau mewn gwasanaethau diagnostig i oedolion a gwasanaethau cwnsela cyn/ar ôl diagnosis mewn rhai rhannau o Gymru. At hynny, mae effaith cyfraddau cynyddol diagnosis ar ganlyniadau i oedolion wedi'i chyfyngu gan drothwyon uchel o gymhwysra i wasanaethau oedolion a chan ddiffyg gwasanaethau arbenigol i oedolion ag ASA nad oes ganddynt anabledd dysgu.

Cafwyd gwelliannau mewn gwasanaethau pontio ers 2008. Mae'r rhain wedi cyfrannu at welliannau o ran profiadau bontio, er bod pontio o'r ysgol i addysg bellach (AB) ac addysg uwch (AU) ar y cyfan yn llawer mwy llwyddiannus na phontio o AB neu AU i gyflogaeth. Gall y diffyg gwasanaethau i oedolion ag ASA (a drafodir isod) gyfyngu ar effaith cynllunio pontio, ac mae tystiolaeth ansoddol yn nodi bod llawer o oedolion ag ASA yn cael trafferth pontio i gyflogaeth a byw'n annibynnol a'u bod yn

parhau i gael cymorth gan eu rhieni. Mewn rhai achosion, maent yn colli annibyniaeth ac mae eu sgiliau cymdeithasol yn dirywio, gan eu gwneud yn gynyddol anabl o ganlyniad i hynny.

Mae cynnydd mewn cyfraddau diagnosis yn ystod plentyndod wedi arwain at gynydd yn nifer yr oedolion ifanc â diagnosis; mae cael diagnosis yn golygu ei bod yn llawer mwy tebygol y bydd anghenion pobl yn cael eu deall a'u cynorthwyo mewn AB ac UW a chan wasanaethau cyflogaeth. Mae nifer yr oedolion ag ASA mewn AB ac AU wedi cynyddu'n sylweddol; er enghraifft, cynyddodd nifer y dysgwyr yng Nghymru mewn AB ag ASA wedi'i gofnodi fel eu prif anabledd o 70 yn 2004/5 i 465 yn 2011/12 (Holtom et al., ar y gweill).

Mae codi ymwybyddiaeth o ASA a hyfforddiant ohono wedi gwella gallu ac adnoddau mewn rhai gwasanaethau cyflogaeth ac mae nifer o brosiectau wedi'u sefydlu'n benodol sydd wedi'u targedu at gynorthwyo pontio i gyflogaeth a'i chynnal. Er gwaethaf hyn, mae oedolion ag ASA yn dal i gael trafferth cael mynediad i gymorth effeithiol er mwyn dod o hyd i gyflogaeth ac mae cyfraddau cyflogaeth yn parhau'n isel.

Er mwyn cynorthwyo oedolion ag awtistiaeth gweithrediad uchel neu syndrom Asperger, cafodd swyddi gweithwyr monitro a chymorth cymunedol eu sefydlu a datblygwyd nifer o brosiectau. Roedd y swyddi gweithwyr monitro a chymorth cymunedol wedi'u bwriadu i ddarparu gwasanaeth cyfeirio i oedolion ag ASA a, thrwy ddarparu cymorth lefel isel, roeddent wedi'u bwriadu i helpu i atal problemau rhag gwaethygu. Mae'r diffyg gwasanaethau i oedolion wedi lleihau effaith y gwaith hwn oherwydd prin yw'r gwasanaethau statudol y gellir cyfeirio pobl atynt. Yn gyffredinol, prin fu'r newid mewn sefyllfa lle mae'r rhan fwyaf o oedolion ag ASA ac anabledd dysgu yn gallu cael mynediad i wasanaeth statudol, ond lle nad yw'r rhai heb anabledd dysgu yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau hyn. Mae i ba raddau y gall gwasanaethau anabledd dysgu ddiwallu anghenion oedolion ag ASA wedi'i gwestiynu hefyd.

Mae sefydlu'r seilwaith lleol a chenedlaethol ASA, a gyfrannodd at fapio gwasanaeth a datblygu cyfeiriaduron a gwefannau gwasanaeth, yn golygu bod mynediad rhieni a gofalwyr i wybodaeth wedi gwella. Serch hynny, mae rhieni a gofalwyr yn nodi'n gyson ei bod yn parhau'n anodd nodi cymorth a gwasanaethau a'u bod yn wynebu lefelau uchel o straen a phryder o ganlyniad i hyn.

## Casgliadau

Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA. Y farn gyffredinol oedd ei fod wedi cyfrannu'n uniongyrchol at godi proffil ASA ac ymwybyddiaeth ohono, mae wedi galluogi datblygu seilwaith lleol ac mae canfyddiad ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl ag ASA, ar eu teuluoedd ac ar weithwyr proffesiynol.

Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA yn cynnwys nifer o wendidau, gan gynnwys diffyg blaenoriaethau clir, diffyg manylion am yr hyn oedd yn ofynnol, a strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd gwan, gan ei gwneud yn anodd cyfeirio datblygiadau ledled Cymru. Roedd hyn oll yn cyfrannu at effaith anwastad ledled Cymru, fel bod y strategaeth yn helpu i greu "ynysoedd" o arfer da ledled Cymru, ond yn cael trafferth creu newid systemig.

Wrth asesu effaith y Cynllun Gweithredu Strategol ASA mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng canlyniadau – yr hyn newidiodd, ac effaith y strategaeth – i ba raddau yr oedd y strategaeth wedi achosi'r newidiadau hynny neu gyfrannu atynt. Nid oedd llawer o'r newidiadau, fel cynnydd mewn ymwybyddiaeth (a drafodwyd uchod),

wedi'u hachosi gan y strategaeth yn unig – er bod y strategaeth wedi cyfrannu atynt.

Nid yw'n bosibl ynysu'n ddiffiniol effaith cael cynllun gweithredu strategol ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar a yw'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA wedi cyflawni ei nodau ai peidio; hynny yw, a oedd y *canlyniadau* a fwriadwyd wedi'u cyflawni - yn hytrach na cheisio ynysu cyfraniad y Cynllun Gweithredu Strategol ASA at y canlyniadau hyn (hynny yw, *effaith* y Cynllun Gweithredu Strategol ASA). Serch hynny, mae'r modelau rhesymeg a ddatblygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn amlygu rhai cryfderau a gwendidau allweddol, sy'n bwrw goleuni ar y gwahaniaeth a wnaed gan y strategaeth (ei heffaith), yn arbennig:

- chwaraeodd prosiectau lleol a rhanbarthol rôl allweddol o ran creu newid a gwella canlyniadau, ond cyfrannodd at effaith anwastad ledled Cymru am eu bod yn brosiectau lleol neu ranbarthol yn hytrach na phrosiectau cenedlaethol;
- roedd effaith y seilwaith ASA lleol ar gomisiynu yn gyfyngedig oherwydd ei fod wedi tueddu i ganolbwyntio ar wasanaethau neu brosiectau a gomisiynwyd ganddo ei hun, yn hytrach

na'r rhai a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol (BILI);

- roedd safonau a chanllawiau cenedlaethol newydd wedi'u bwriadu i ysgogi gwelliannau mewn meysydd fel addysg a chyfnodau pontio pobl ifanc. Roedd methiant i ddatblygu neu weithredu'r rhain wedi cyfyngu ar effaith y Cynllun Gweithredu Strategol ASA;
- mewn llawer o ardaloedd, roedd y Cynllun Gweithredu Strategol ASA yn diffinio'r safon i'w chyrraedd, ond nid oedd yn mynegi ffordd effeithiol o'i chyrraedd ac felly roedd llawer yn dibynnu ar fentrau a blaenoriaethau lleol.

Yn gyffredinol, mae cynnydd wedi'i wneud yn yr holl feysydd allweddol y canolbwyntiodd y Cynllun Gweithredu Strategol arnynt, ac mae'r strategaeth wedi cyfrannu at wella profiadau unigolion ag ASA a'u teuluoedd. Serch hynny, nid yw wedi cyflawni ei nodau'n llawn, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion ag ASA, ac mae angen parhau â'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA a'i hadnewyddu.

Mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer unrhyw strategaeth wedi'i hadnewyddu yn debygol o gynnwys:

- gwella asesu ASA a gwneud diagnosis ohono, yn enwedig i blant;
- sicrhau bod y sgiliau a'r annibyniaeth y mae llawer o blant a phobl ifanc yn eu datblygu drwy addysg yn cael eu cynnal wrth iddynt ddod yn oedolion (er bod ASA yn gyflwr gydol oes, nid yw lefelau anabledd pobl yn sefydlog);
- gwella mynediad oedolion ag ASA i gymorth (yn enwedig i'r rhai na allant gael mynediad i wasanaethau anabledd dysgu na iechyd meddwl);
- gwella mynediad i wybodaeth a chymorth ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ag ASA;
- gwella data ar effaith ac effeithiolrwydd y strategaeth wedi'i hadnewyddu (gan alluogi mwy o atebolrwydd a gwella nodi cryfderau a gwendidau unrhyw strategaeth wedi'i hadnewyddu).

Mae heriau allweddol ar gyfer unrhyw strategaeth wedi'i hadnewyddu yn debygol o gynnwys:

- atgyfnerthu a datblygu gwasanaethau arbenigol penodol i ASA lle bo'n briodol (fel gwasanaethau asesu a diagnosis ASA a gwasanaethau cymorth cyflogaeth penodol i ASA) ac integreiddio ymwybyddiaeth o ASA a chymorth iddo mewn polisi ac arfer "prif ffrwd", mewn meysydd fel addysg, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol a

- gwasanaethau cyflogaeth (drwy, er enghraifft, ddatblygu'r gweithlu a datblygu dulliau o rannu arbenigedd);
- cynnal y gwelliannau pwysig mewn gwasanaethau prif ffrwd ac arbenigol sydd wedi'u gwneud hyd yma, yn yr hyn y disgwylir iddo fod yn gyd-destun heriol, wedi'i nodweddu gan alw cynyddol am wasanaethau, ochr yn ochr â thoriadau mewn adnoddau (Williams, 2014);
- cynyddu'r mentrau lleol a rhanbarthol hynny sydd wedi gwneud gwahaniaeth, er mwyn gwella cymorth a gwasanaethau ledled Cymru;
- datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y person, yn hytrach na'r gwasanaeth<sup>1</sup> sy'n gallu diwallu'n well anghenion cymhleth pobl ag ASA nad ydynt yn gweddu'n hawdd i strwythurau na thimau gwasanaeth presennol.

### **Argymhellion ar gyfer gwella canlyniadau i bobl ag ASA a'u teuluoedd**

*Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASA*

A1. Yr arweinydd datblygu cenedlaethol ASA i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac arweinwyr ASA lleol i sicrhau bod

---

<sup>1</sup> Mae hwn yn un o nodau allweddol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

ymwybyddiaeth o ASA yn cael ei integreiddio i strategaethau datblygu'r gweithlu (e.e. fel rhan o hyfforddiant cychwynnol) mewn gwasanaethau gyrfaoedd, addysg, iechyd, tai, cyflogaeth a gofal cymdeithasol.

A2. Yr arweinydd datblygu cenedlaethol ASA i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac arweinwyr ASA lleol i gynnal a datblygu rhwydweithiau ASA, neu "ganolfannau" arbenigedd, fel y rhwydwaith cwnsela ASA cyn/ôl ddiagnosis i oedolion (Holtom a Watkins, sydd ar y gweill) a gwasanaethau cyflogaeth penodol i ASA (Townesley et al., 2014). Dylai'r cymorth ganolbwyntio nid dim ond ar gynnal yr arbenigedd hwn, ond hefyd ar sicrhau ei fod yn cael ei rannu ag eraill.

A3. Llywodraeth Cymru i barhau i gyllido adnoddau cenedlaethol, fel gwefan ASD info Cymru.

*Gwella asesu ASA a gwneud diagnosis ohono i blant ac oedolion*

A4. Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn rhwydwaith cwnsela ASA cyn/ôl ddiagnosis i blant Cymru gyfan a pharhau i gynorthwyo'r rhwydwaith cwnsela ASA cyn/ôl ddiagnosis i oedolion Cymru gyfan.

A5. Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i BILI ddarparu adroddiadau blynyddol ar berfformiad gwasanaethau diagnostig ASA i blant ac oedolion (gweler, er enghraifft, y mesurau arfaethedig yn nhablau pedwar a phump).

*Gwella addysg plant a phobl ifanc ag ASA*

A6. Llywodraeth Cymru i barhau i weithio i ddiwygio'r system ar gyfer nodi, asesu a chynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), wrth baratoi ar gyfer Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) arfaethedig. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, datblygu'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr yn well, gan gynnwys y rhai ag ASA.

A7. Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wasanaethau addysg ALI ddarparu adroddiadau blynyddol ar berfformiad disgyblion ag ASA yn eu hardal (gweler yr enghreifftiau yn nhabl chwech).

*Gwella cyfnodau pontio pobl ifanc ag ASA*

A8. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr ôl-16 i weithredu argymhellion yr astudiaeth i nodi trefniadau pontio o'r ysgol i AB ôl-16 ac AU a hyfforddiant i bobl ifanc ag anawsterau

a/neu anabledau dysgu (Holtom a Lloyd-Jones, sydd ar y gweill).

A9. Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu adroddiadau blynyddol ar berfformiad dysgwyr ôl-16 ag ASA yn eu hardal (gweler yr enghreifftiau yn nhabl saith).

#### *Gwella canlyniadau cyflogaeth i bobl ag ASA*

A10. Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr ymchwil i ganlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ASA (Townesley et al., 2014). Gallai hyn gynnwys nodi sut y gallai cymorth cyflogaeth ychwanegol, fel hyfforddiant swydd, i bobl ag ASA gael ei gyllido (e.e. drwy'r defnydd o gronfeydd Cyfrifon Segur ac arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop).

A11. Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru i wella integreiddio cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg neu hyfforddiant, neu sydd wedi ymddieithrio, o dan y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid, gyda chymorth i bobl ifanc ag AAD (gweler e.e. Holtom a Lloyd-Jones., ar y gweill).

A12. Llywodraeth Cymru i archwilio'r cwmpas i'r Llysgennad Cyflogaeth ASA

weithio gydag adrannau adnoddau dynol cyflogwyr i sicrhau bod recriwtio a chymorth yn diwallu anghenion pobl ag ASA. Gallai ymdrechion cychwynnol ganolbwyntio ar gyflogwyr y sector cyhoeddus, fel Llywodraeth Cymru, y GIG ac awdurdodau lleol.

A13. Llywodraeth Cymru i wneud cais am ddata ar ganlyniadau i bobl ag ASA wedi'i gefnogi gan y Ganolfan Byd Gwaith a darparwyr rhaglenni gwaith, o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

#### *Gwella gwasanaethau oedolion i bobl ag ASA*

A14. Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r rhwydwaith cwnsela cyn/ôl ddiagnosis i oedolion Cymru gyfan ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau asesu a diagnostig a gwasanaethau i oedolion, a chyflwyno adroddiad ar y rhain.

A15. Llywodraeth Cymru i werthuso effaith y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar bobl ag ASA. Dylai hyn gynnwys ei effaith ar asesiadau o angen; effaith meini prawf cymhwystra cenedlaethol<sup>2</sup> ar fynediad i ofal a chymorth; a'u heffaith ar ddarparu gwybodaeth i bobl

---

<sup>2</sup> Rhoddir manylion am feini prawf cymhwystra mewn rheoliadau sydd ar y gweill.



ag ASA a nodwyd fel rhai “mewn angen” ac i'w gofalwyr am y gofal a'r cymorth sydd ar gael yn eu hardal<sup>3</sup>.

A16. Llywodraeth Cymru i ystyried yr achos dros ddatblygu gwasanaethau mwy integredig i oedolion ag ASA (Holtom a Watkins, sydd ar y gweill). Dylai hyn gynnwys gwerthuso cost-effeithiolrwydd modelau gwasanaeth integredig presennol, fel Siop un Stop Caerdydd a gweithwyr monitro a chymorth cymunedol.

*Gwella gwybodaeth a chymorth i bobl ag ASA a'u rhieni a'u gofalwyr*

A17. Arweinwyr ASA lleol i weithio gyda'r sector gwirfoddol i helpu i sicrhau bod pobl ag ASA a'u rhieni a'u gofalwyr yn gallu cael mynediad i gymorth anffurfiol (e.e. drwy grwpiau cymorth).

A18. Arweinwyr ASA lleol i weithio gyda gwasanaethau lleol a'r sector gwirfoddol i drafod y cwmpas i ddatblygu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori ASA lleol a allai weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor i bobl ag ASA a'u rhieni a gofalwyr.

*Atgyfnerthu'r seilwaith ASA a chynnal cynnydd ledled Cymru*

A19. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar y defnydd o gyllid ar gyfer ASA wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw.

A20. Llywodraeth Cymru i barhau i gyllido swydd arweinydd datblygu cenedlaethol ASA, gan weithio gyda'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASA i adolygu ac, os yw'n briodol, ddiwygio'r rôl yn unol â chanfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn a'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig.

A21. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau rôl y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASA, er mwyn iddo allu darparu cyngor arbenigol a dwyn rhanddeiliaid, fel Llywodraeth Cymru ac ALI, i gyfrif (e.e. drwy rannu data ar ganlyniadau â'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASA).

---

<sup>3</sup> Bydd dyletswydd uwch ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth i bobl mewn angen, a'u gofalwyr, am y gofal a'r cymorth sydd ar gael yn eu hardal.

Awdur: People and Work Unit

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanne Coates

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a

Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5540

Ebost: [Joanne.Coates@wales.gsi.gov.uk](mailto:Joanne.Coates@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

18 Chwefror 2016

ISBN: 978-1-4734-5795-9

© Hawlfraint y Goron 2016



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y  
Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni  
nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>